Triniaeth Iechyd Breifat yng Nghymru

Fe allwch chi gael triniaeth iechyd breifat ar gyfer unrhyw gyflwr meddygol, cyhyd â'ch bod yn gallu talu amdano. Gallai hyn gynnwys triniaeth mewn ysbyty breifat, gan arbenigwr meddygol neu Feddyg Teulu. Gallai hefyd gynnwys triniaeth ddeintyddol, cynghori a seicotherapi, ffisiotherapi, neu driniaeth ar gyfer cam-drin cyffuriau neu alcohol.

Efallai y byddwch am driniaeth iechyd breifat pan:

- nad yw'r driniaeth ar gael trwy GIG
- fod rhestr aros hir gan GIG a chwithau ddim am aros
- fyddwch chi am ddewis y dyddiad ar gyfer llawdriniaeth mewn ysbyty
- fyddwch chi am gael eich trin gan ymgynghorydd o'ch dewis
- fyddwch chi am ail farn ynglŷn â thriniaeth gawsoch chi trwy GIG
- sgrinio iechyd.

Pethau i'w hystyried cyn cael triniaeth iechyd breifat

Cyn cael triniaeth iechyd breifat, efallai y byddwch am ystyried y canlynol:

- fyddwch chi'n gallu ei fforddio. Oni bai fod gennych yswiriant iechyd preifat, mae'r gost yn debygol o fod yn uchel iawn
- fyddwch chi'n gallu cwrdd ag unrhyw gostau ychwanegol annisgwyl, er enghraifft, os na fyddwch chi'n gwella ar ôl llawdriniaeth mor gyflym â'r disgwyl a bod rhaid i chi aros yn yr ysbyty yn hwy
- a fyddai ysbyty breifat yn gallu delio ag unrhyw gymhlethdodau allai godi yn ystod triniaeth - er enghraifft, oes ganddi gyfleusterau gofal dwys?

Mae'n bosibl os penderfynwch chi dalu am ryw driniaeth sydd ddim ar gael trwy GIG, fe allech chi ddarganfod fod yn rhaid i chi hefyd dalu am yr holl ofal arall sydd ei angen arnoch. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio gyda'ch ysbyty GIG cyn i chi gael triniaeth breifat.

Sut i gael triniaeth iechyd breifat

Mae yna nifer o ffyrdd sut y gallwch ddod o hyd i ymarferwr meddygol preifat. Fe allech chi:

- ofyn i'ch meddyg teulu am eich cyfeirio chi neu roi manylion am rywun sy'n arbenigwr yn y maes gofal sydd ei angen arnoch. Os ydych chi am weld arbenigwr, neu gael triniaeth mewn ysbyty, rhaid i chi gael eich cyfeirio gan eich Meddyg Teulu. Rhaid i Feddyg Teulu ddweud wrthych os oes ganddyn nhw unrhyw fudd ariannol yn yr ysbyty neu glinig y byddan nhw'n eich cyfeirio iddi.
- gysylltu â'r gymdeithas broffesiynol berthnasol
- ofyn i'ch awdurdod iechyd lleol am restr o'r holl feddygon teulu yn eich ardal - bydd hyn yn cynnwys meddygon teulu sy'n gwneud gwaith preifat. Ar y llaw arall, fe allech chi ofyn i'ch meddyg teulu chi os allan nhw eich trin yn breifat
- edrych ar y rhyngrwyd.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Taliadau am driniaeth iechyd breifat

Mae ymarferwr iechyd neu ysbyty preifat yn gyfrifol am osod eu taliadau eu hunain. Fe allwch chi ddefnyddio'r rhyngrwyd i'ch helpu i ddarganfod beth ddylai'r taliad priodol fod ar gyfer triniaeth arbennig. Fe ddylech chi ofyn i'ch meddyg beth fydd y taliadau ymlaen llaw. Mae hyn yn cynnwys unrhyw daliadau am ddigwyddiadau a chymhlethdodau annisgwyl. Mae gan eich meddyg **ddyletswydd gofal cyfreithiol** tuag atoch.

Mae hyn yn golygu mewn argyfwng, rhaid iddyn nhw gymryd camau rhesymol i ddarparu triniaeth angenrheidiol, hyd yn oed os na chytunwyd ar hyn ymlaen llaw. Fel arfer fe godir tâl am y driniaeth hon, er mai dim ond swm rhesymol y bydd yn rhaid i chi ei dalu.

Pan ewch chi i'r ysbyty am lawdriniaeth breifat, fel arfer fe godir tâl ar wahân gan:

- eich llawfeddyg
- anesthetydd
- yr ysbyty. Bydd taliadau'r ysbyty yn cynnwys pethau megis llety, prydau bwyd, golchdy, nyrsys, cyffuriau, meddyginiaeth, pelydr-x a phrofion gwaed.

Weithiau, fe allwch chi dalu am driniaeth breifat mewn ysbyty GIG. Penderfynir ar y taliadau am aros yn yr ysbyty gan yr awdurdod iechyd lleol. Bydd y rhain yn dibynnu ar yr awdurdod iechyd, ac ar yr ysbyty. Nid oes taliad penodol cenedlaethol am dderbyn triniaeth breifat mewn ysbyty GIG. Fydd taliadau'r ysbyty ddim yn cynnwys ffioedd y meddyg, gan y bydd y rheini ar wahân.

Cwyno am driniaeth iechyd breifat

Mae gennych hawl cyfreithiol i gael eich trin gyda gofal a sgil rhesymol gan eich ymarferwr meddygol. Bernir hyn yn ôl yn ôl yr hyn y byddai'n rhesymol i aelodau eraill y proffesiwn ei wneud o dan yr un amgylchiadau. Mae methiant i gwrdd â'r safon hwn yn **esgeuluster proffesiynol.**

Os ydych chi'n credu bod doctor, llawfeddyg, neu ymarferwr meddygol arall wedi bod yn esgeulus ac am achwyn, bydd angen i chi benderfynu beth yw'r canlyniad y dymunwch ei gael.
Os ydych chi'n dioddef poen, anaf, anghyfleustra neu gostau ychwanegol oherwydd esgeuluster, mae gennych hawl i gael **iawndal**. Gallai hyn gynnwys colli cyflog. Er mwyn hawlio iawndal, fe ddylech chi geisio trafod gyda'ch ymarferwr yn gyntaf. Efallai y byddwch am gyngor ynglŷn â gwneud hyn - gweler o dan Cymorth ychwanegol.

Os nad yw hyn yn gweithio, efallai y byddwch am gymryd camau cyfreithiol. Fe ddylech chi gael cyngor cyfreithiol arbenigol yn gynnar iawn. Fe allwch chi gael manylion am gyfreithwyr lleol sy'n delio â'r math hwn o achos oddi wrth Gweithredu yn erbyn Damweiniau Meddygol (Action against Medical Accidents) (AvMA). Er mwyn cysylltu â hwy, ffoniwch eu Llinell gymorth: 0845 123 2352, neu ewch i'w gwefan yn: www.avma.org.uk.
Gall fod yn anodd profi esgeuluster meddygol. Yn aml, mae'n dibynnu ar farn bersonol a phroffesiynol eich ymarferwr ynglŷn â beth oedd y driniaeth fwyaf priodol

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

yn eich achos chi. Efallai y bydd angen ail farn arnoch. Sut bynnag, gallai ymarferwr arall fod yn amharod i ymwneud â chwyn yn erbyn cydweithiwr ac aelod arall o'u proffesiwn. Os gytunan nhw i roi ail farn, mwy na thebyg y byddan nhw'n codi tâl am hynny.
Rhaid cychwyn camau cyfreithiol am esgeuluster meddygol o fewn tair blynedd i'r esgeuluster ddigwydd, neu o'r amser y daethoch chi'n ymwybodol ohono.

Mae yn erbyn y gyfraith i ddarparwyr gofal iechyd preifat i wahaniaethu yn eich erbyn, er enghraifft, ar sail eich rhyw, rhywioldeb, hil, anabledd neu grefydd. Os ydych chi'n teimlo fod gwahaniaethu yn eich erbyn wedi digwydd, fe allwch chi gwyno ynglŷn â hyn. Am fwy o wybodaeth am wahaniaethu, edrychwch ar wefan Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn: www.equalityhumanrights.com.

Os ydych chi am gwyno am wasanaeth a dderbynioch mewn ysbyty breifat, fe ddylech drafod hyn gyda'r ysbyty yn gyntaf. Os nad ydych yn fodlon â safon gofal neu reolaeth ysbyty breifat neu glinig yng Nghymru, fe allwch roi gwybod am y broblem i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn : www.hiw.org.uk
Os oes gennych gwyn am driniaeth ddeintyddol breifat na fedrwch chi ei datrys gyda'r ymarferwr o dan sylw, fe allwch gysylltu â'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol. Mae hwn yn wasanaeth am ddim sy'n ceisio datrys cwynion am driniaeth anghywir neu wael, prisio aneglur, oedi ac anfoesgarwch. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol trwy ffonio 08456 120 540, e-bostiwch at info@dentalcomplaints.org.uk neu cwblhewch ffurflen gwyno ar eu gwefan yn: www.dentalcomplaints.org.uk.

Yswiriant Iechyd Preifat

Un o'r prif ddulliau o sicrhau cost triniaeth iechyd breifat yw trwy yswiriant iechyd preifat. Mae yna sawl math o yswiriant iechyd ar gael, a bydd yn rhaid i chi benderfynu pa un sydd ei angen arnoch.

Cyn prynu yswiriant iechyd preifat, fe ddylech chi ystyried y canlynol:

- ydych chi'n gallu fforddio'r taliadau. Gall cost pob premiwm gynyddu yn dibynnu ar bethau megis eich oedran, neu os ydych chi'n ysmygu ai peidio
- oes yna unrhyw gostau nad yw'r polisi yn eu gwarchod
- oes yna gyfyngiadau ar y swm y bydd y polisi yn ei dalu allan
- os ydych chi'n gorfod aros am amser penodol (**cyfnod cymhwyso**) cyn y gallwch chi hawlio ar y polisi
- os ydych chi'n gorfod talu am driniaeth ymlaen llaw ac yna hawlio hwn yn ôl oddi wrth y cwmni yswiriant. Os felly, ystyriwch a ydych yn gallu fforddio gwneud hyn.
- os ydych chi eisoes wedi'ch gwarchod gan gynllun yswiriant iechyd yn y gweithle - gwiriwch gyda'ch cyflogwyr. Efallai eich bod yn cael eich cynnwys yng nghynllun yswiriant y gweithle eich partner os oes ganddynt un.

Pan fyddwch chi'n prynu yswiriant iechyd preifat, rhaid i chi sôn wrth y cwmni am unrhyw beth allai effeithio eich gwarchodaeth yswiriant, er enghraifft, os ydych chi'n ysmygu, neu os oes gennych gyflwr meddygol sydd eisoes yn bod. Mae hyn yn berthnasol, hyd yn oed os nad oes cwestiwn uniongyrchol ynglŷn â hyn ar y ffurflen gais. Os na fyddwch chi'n rhoi'r wybodaeth hon, gall y cwmni yswiriant wrthod gwarchod cost y driniaeth. Fe ddylech chi ddweud wrth y cwmni hefyd am unrhyw

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

newid yn eich amgylchiadau.

Pethau na fydd eich polisi yn eu gwarchod
Fydd y rhan fwyaf o bolisïau yswiriant iechyd ddim yn gwarchod y canlynol:

- cost triniaeth seiciatrig
- cyflwr meddygol oedd gennych chi cyn prynu'r yswiriant
- salwch cronig neu hirdymor na ellir ei wella
- treuliau iechyd dramor
- triniaeth ffrwythlonder
- cost trin plant.

Beth os ydych yn anabl
Os ydych yn anabl, efallai y cewch hi'n anodd cael rhai mathau o sicrwydd yswiriant. Yn gyffredinol, mae yn erbyn y gyfraith i yswirwyr i wahaniaethu yn erbyn pobol anabl. Sut bynnag, mewn rhai amgylchiadau efallai y bydd caniatâd ganddynt i ystyried y ffaith eich bod yn anabl wrth benderfynu cynnig yswiriant i chi ai peidio ac ar ba delerau. Fe ddylai brocer yswiriant neu ganolwr annibynnol allu dod o hyd i bolisi addas ar eich cyfer.

Beth os yw eich cwmni yswiriant yn gwrthod talu allan
Gall fod hawl gan eich cwmni yswiriant i wrthod talu allan os:

- yw eich polisi yn gofyn i chi dalu swm penodol, er enghraifft y £50 cyntaf, tuag at gost eich triniaeth. Gelwir hyn yn **bolisi gor-dâl**.
- nad yw eich cyflwr, clefyd neu driniaeth yn cael ei warchod gan eich polisi
- ydyn nhw'n credu fod eich ymarferwr yn gofyn am ormod o dâl. Yn yr achos hwn, efallai y bydd yn rhaid i chi gwrdd â'r gwahaniaeth yn y costau eich hun.

Os ydych chi am gwyno am gwmni yswiriant iechyd preifat, fe ddylech drafod hyn gyda'r cwmni yn gyntaf. Os nad ydych yn fodlon ar ôl hyn, fe allwch gwyno wrth yr Ombwdsmon Gwasanaethau Ariannol. Am fwy o wybodaeth, ewch i wefan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Ariannol yn: www.financial-ombudsman.org.uk neu ffoniwch nhw ar 0845 080 1800.

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

GIG
Tel: 0845 4647 (Galw Iechyd Cymru)
Gwefan: www.nhsdirect.wales.nhs.uk

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Defnyddio gwasanaethau GIG yng Nghymru
- Cwynion am GIG a gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol
- Cwynion am GIG yng Nghymru
- Taliadau GIG a gwerth talebau optegol
- Sut i ddefnyddio ombwdsmon yng Nghymru

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Gymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 1 Hydref 2010, a chaiff ei adolygu'n rheolaidd am unrhyw newidiadau. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawr lwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr